Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

11 Chwefror 2021

Annwyl Mark

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2021**

Gwnaethom drafod Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2021 (Rheoliadau Diwygio Rhif 5) yn ein cyfarfod ar 25 Ionawr 2021, ac fe gyflwynwyd ein **hadroddiad** i'r Senedd ar yr un diwrnod.

Dyma'r trydydd pwynt craffu o ran rhinweddau a nodwyd yn ein hadroddiad:

> Nodwn, er na chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, bod Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cwblhau. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu fel a ganlyn:
>
> *"Er ei bod yn anochel y bydd effeithiau ar hawliau plant ac, yn benodol, ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig, bydd rhywfaint o gyfle i liniaru'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, yn enwedig i'r dysgwyr mwyaf agored i niwed drwy ganiatáu iddynt gael mynediad i fangre ysgol neu goleg, ond ni fydd yn bosibl ymdrin â'r holl effeithiau anghymesur a negyddol. Mae'r effeithiau negyddol hyn yn parhau i gael eu goddef ar sail y risg i iechyd y cyhoedd."*

Nodwyd yn ein hadroddiad hefyd fod y Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd copïau o'r asesiadau hyn yn cael eu cyhoeddi ar **wefan** Llyw.Cymru.

Ers i ni drafod y Rheoliadau, daeth i'n sylw nad yw'n ymddangos bod yr asesiadau y cyfeirir atynt yn y Memorandwm Esboniadol ar gael i'r cyhoedd hyd yma.

Yn ein cyfarfod yr wythnos hon, gwnaethom drafod llythyr oddi wrth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru a oedd yn nodi, er y **cyhoeddwyd** asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a'r effaith ar hawliau plant, dyddiedig 21 Rhagfyr 2020, nad oedd asesiadau wedi'u cyhoeddi hyd yma mewn perthynas â Rheoliadau Diwygio Rhif 5, na'r rheoliadau y maent yn eu diwygio. Mae'r llythyr oddi wrth y

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Parchedig Ruth Coombs, Pennaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, wedi'i amgáu er gwybodaeth i chi.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau pryd y bydd yr asesiadau perthnasol o'r effaith ar hawliau plant a'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cyhoeddi.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Parchedig Ruth Coombs.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English